

Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar ddeg yr oedd uchelwyr Cymreig ym Môn yn adennill y safle a gollwyd ar ôl cwmp eu teulu brenhinol yn 1282 ac yn eu plith ddisgynyddion niferus Ednyfed Fychan, distain Llywelyn y Cyntaf. Un o'r rhain oedd Tudur ap Goronwy o Benmynydd a briododd chwaer i fam Owain Glyndŵr.

Canodd y bardd Iolo Goch o Ddyffryn Clwyd gywydd o fawl i'w feibion am eu lletygarwch – a hwythau hefyd am eu bod yn gefndryd i Owain yr oedd Iolo mor hoff o'i lys, a'i fwyd yn Sycharth!

Cenawon Tudur llon Llwyd,
Cynheilaid deucan haelwyd
Cewri'r gwên – hawdd caru'r
gweilch

Ceirw addurn, carueiddweilch.
(*gweilch = arwyd*)

Y meibion oedd

Goronwy o Benmynydd –

Cyntaf lle'r af, llew a rydd,
Caer Pen Môn, carw Penmynydd
Goronwy loyw saffwy, lys hoff,
Gair da iawn, gwr dianoff.

(*saffwy = gwawffon;*
dianoff = hawddgar)

Rhys o Erddreiniog

Erddreiniog, urddai'r ynys,
Ydd af, atresaf, ar Rys;
Trysorem treisia'i ariant
A'i aur coch, ef a wyr cant.

(*ydd = yr; wtresaf = gloddestaf;*
ariant = arian)

Ednyfed o Drecastell

Nid pell Tre'r castell, cell ced
Tud nefol, tai Ednyfed;
Ei fenestr fyddaf yno,
A'i faer fyth - fy aur yw fo.
(*ced = haelioni; tud = pobl;*
maer = ystward)

Ac yn olaf **Gwilym o Glorach**
(gydag ystadaw eraill yng
nghwmwd Twrcelyn ac yn
Nindaethwy).

Llys Wilym, blas llysioulawn,
Lleupart aur, lle parod dawn.
Trafn Glorach, trefn goleuryw,
Tariaf i Fôn tra fwyf fyw.
(*trafn = tro; tariaf = oedaf*)

Yr oedd brawd arall **Maredudd** yn rhy ifanc i ganu amdano. Bu farw Goronwy (a oedd mewn swyddi pwysig fel Cwnstabl Castell Biwmares) o foddï yn 1382, yr un flwyddyn â'i frawd Ednyfed. Claddwyd Goronwy ym Mrodordy Urdd St. Francis, Llan-faes ond wedyn trosglwyddwyd ei feddrod a cherfluniau alabaster ohono a'i wraig Myfanwy i Eglwys St. Gredifael Penmynydd ac sydd yno o hyd. Canodd lolo Goch farwnad ar ei ôl yn disgrifio Môn dan alar yn dywyll fel petai clip ar yr haul.

Y nos ferraf o'r haf, hwy
Fydd no'r nos hir o Fawddwy;
(*no = na*)
Mae cwmwl fel mwg gwywon
Fel clipsi i mi ym Môn.

Yr oedd Rhys a Gwilym wedi bod yn gwasanaethu Richard II

Hil Ednyfed Fychan a Rhyfel Glyndŵr

J. Wynne Lewis

GORONWY TUDUR A MYFANWY



Delwau alabaster o ewythr a modryb Owain Tudur yn Eglwys Penmynydd. Naddwyd yr alabaster i wneud eli llygaid.

ac yn filwyr profiadol, a dyna'r sefyllfa ym Môn pan gododd Owain Glyndŵr ym Medi 1400 ar y gororau. Yr oedd Môn yn barod i'w helpu oherwydd y tyndra rhwng y Cymry a'r Saeson, yr anawsterau a ddilynodd y Pla Du a'r siom ar yr ynys ar ôl llofruddiaeth Owain Lawgoch yn Ffrainc.

Yr oedd y Brenin Harri IV ar ei ffordd yn ôl o'r Alban pan glywodd am derfysg Glyndŵr. Cododd fyddin ar frys ac ysgubo trwy'r Gogledd heb lawer o wrthwynebiad cyn cyrraedd Môn. Yr oedd yn ymwybodol bod nifer o glerigwyr a lleygwyr yng Nghaer a Chymru yn ddig oherwydd iddo garcharu (a lladd wedyn) Richard II.

Dechreuodd ar yr ynys gan ddifrodi a gwasgaru'n ddirugaredd y Brodordy yn Llan-faes. Ond ar faes Rhosfawr yr oedd Rhys a Gwilym a gwŷr Môn yn disgwyl amdano a bu rhaid iddo gilio'n ôl i Fiwmares, ac wedyn i Loegr. O hyn ymlaen y ddau frawd oedd ymhlith capteiniaid mwyaf galluog a ffyddlon eu cefnder Glyndŵr.

Gan feddwl ar ddechrau 1401 bod y gwrthryfel bron ar ben cynigiodd y Brenin bardwn i bob un a oedd wedi codi yn ei erbyn, ond wedi rhoi'r gorau i ymladd, ar wahân i Owain, Rhys a Gwilym. Penderfynodd y brodyr ar ateb pendant er eu mwyn eu hunain, ac i symbylu Owain i barhau. Tra bu gwarchodlu Castell Conwy yn eglwys y dre ar ddydd Gwener y Groglith, gan adael dim ond ychydig o filwyr ar ôl, fe llyddodd Gwilym a deugain o Gymry i gael mynediad a dal y castell am dri mis tra buont yn trafod telerau efo cynrychiolydd y Brenin, sef Henry Percy (Hotspur). Yr oedd Rhys a'i fintai yn y bryniau wrth law.


Am gyfnod wedyn, y tu allan i Wynedd oedd prif feysydd y gad i Owain ond dal ymlaen yn

Môn yr oedd y gwrthryfelwyr ac erbyn 1404 yr oeddynt yn rheoli'r ynys, gan gynnwys Castell Biwmares ac yn ddigon cryf i ymosod ar Gaernarfon. Ond fe ddaeth trychineb y flwyddyn ganlynol gyda glaniad yng Nghaerdybi gan Stephen Scrope, dirprwy Arglwydd Raglaw Iwerddon, efo llu mawr o Wýddelod Dilyn. Fe aethant trwy'r ynys yn lladd a dinistrio a rhyddhau Biwmares o grafangau'r Cymry.

Gorchfygwyd byddin yr ynyswyr ganddynt yn Rhosmeirch a chiliodd llawer o Gymry i Eryri efo'u hanifeiliaid. Yn 1406, yn eu digalondid a'u gwendid, ildiodd yr ynyswyr a chafodd dros ddwy fil o ddeiliaid eu dirwyo (cannoedd o bob cwmwd) ym mis Tachwedd. Felly colodd Glyndŵr ei afael ar Fôn a rhannau o ddeddwyrain Cymru hefyd, yn y flwyddyn honno. Yr oedd cannoedd o Fonwysion wedi talu'r ddirwy eithaf eisoes, sef cael eu lladd yn ddyinion, merched a phlant, yn ystod chwe blynedd o ryfel. Er hyn i gyd dal ymlaen efo Owain yr oedd Rhys a Gwilym a Maredudd (a phlant Ednyfed) ac eraill o Fon, ar y tir mawr hyd yn oed ar ôl cwmp Castell Harlech i'r Brenin yn 1408. Fe ddienyddiwyd Rhys yng Nghaer yn 1411 ond nid oes sicrwydd ynglŷn â'r brodyr eraill.

Collwyd tir y Tuduriaid bron i gyd ond fe elwodd rhai am ymostwng i'r Brenin yn ddigon buan. Priododd Morfudd, merch Goronwy ap Tudur o Benmynydd â Gwilym ap Gruffudd (William Griffiths o Benrhyn, Bangor wedyn). Yr oedd yntau o hil Ednyfed Fychan ac ymunodd ef a'i deulu efo Glyndŵr yn 1402, fe ildiodd ym mis Awst 1405 ac yn nes ymlaen yr oedd wedi meddiannu llawer o hen dir y Tuduriaid.

Hwyrach o dan ddylanwad gŵr ei gyfnither Morfudd, fe wnaeth Owain, mab Maredudd, yn well na hynny! Dewisodd yr enw Owen Tudur ar ôl ei daid parchus yn hytrach na'i dad y gwrthryfelwr, ac aeth i wasanaethu, ar faes y gad a llys Harri V (a oedd wedi ymladd yn erbyn Glyndŵr a Maredudd fel y 'Tywysog Harri' ifanc). Yn well hyd yn oed na hynny, fe briododd wraig weddw Harri V a fu farw yn 1422 a derbyniodd Harri VI eu plant nhw sef Edmund a Jasper, yn hanner brodyr iddo. Ymhen amser ac ar Faes Bosworth, daeth mab Edmund yn Harri VII. Rwyf yn barnu fod lolo Goch wedi molu'r brodyr iawn a byddai wedi ychwanegu Maredudd.



Dyma ffenestr goffa'r Tuduriaid yng Nghapel y Tuduriaid yn Eglwys Penmynydd. Fe weloch ros yn coch a gwyn, a phorthcwlis y teulu Beaufort (Margaret Beaufort yn ferch yng nghyfraith i Owen Tudur). Mae'r rhosyn yn goch a gwyn i ddangos yr undeb rhwng y Lancastriaid a'r Yorkiaid. Fe weloch fod yna gyfeiriadau at undeb, rhosyn, afon Ceint, tŷ dur (tudur) a Phenmynydd, yn yr ysgriflen. "Undeb fel Rhosyn yw ar lan afonydd ac fel tŷ dur ar ben y mynydd".

O.N. Dylwn ddatguddio diddordeb personol! Priododd fy nghyfyrdres Miriam Jones o Amlwch a Lerpwl â'r Dr R. Wynn Williams (sy'n byw yng Nghanada bellach) mab i Derwas Douglas Wynn Williams o hen deulu Peniarth Uchaf, Llanegryn. Yn ol *Achau Gwynedd a Môn*, J. E. Griffith 1914 (nid bob tro'n gywir) priododd Gruffydd Derwas (*Esquire to the body of Henry VI*) ag Angharad, merch Rhys ap Tudur ap Goronwy ('ap' Ednyfed Fychan). Yr wyf yn falch o ychwanegu mai enw bedydd wyr Dr a Mrs Wynn Williams yw Rhys, bachgen heini a deallus fel ei hen 17fed taid, Rhys ap Tudur.

(*Ymddangosodd yn Yr Arwydd, Chwefror 2001*)